Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Adroddiad ar

Ysgol Llandygai

Llandygai
Bangor
Gwynedd
LL57 4HU

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Llandygai

Enw'r darparwr	Ysgol Llandygai
Awdurdod lleol	Cyngor Gwynedd
Iaith y darparwr	Cymraeg
Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg	Categori 3
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	Ysgol yr Eglwys yng Nghymru
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	80
Disgyblion o oedran ysgol statudol	68
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin	6
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%)	20.3%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%)	26.5%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	22.1%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	*
Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon	Nac ydy

Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2024
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	18/03/2019
Dyddiad dechrau'r arolygiad	03/11/2025

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

Crynodeb

Mae Ysgol Llandygai yn gymuned gartrefol ac mae gan y disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae bron bob un o'r disgyblion yn hynod gwrtais ac maent yn barchus at oedolion ac ymwelwyr. Maent yn ymddwyn yn dda iawn.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi dechrau cymryd rhan mewn ystod gyfyng o weithgareddau monitro addas. Er hyn, nid yw prosesau hunanwerthuso'r ysgol yn rhoi dealltwriaeth ddigon clir i arweinwyr o wendidau mewn addysgu a dysgu. Mae hyn yn golygu nad yw prosesau cynllunio yn cefnogi gwelliant effeithiol dros amser. Er bod llywodraethwyr yn gefnogol ac yn rheoli adnoddau'n briodol, nid yw eu rôl mewn gwerthuso perfformiad yr ysgol wedi'i datblygu'n ddigonol.

Ar draws yr ysgol, mae tua hanner o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd addas yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddiffygion ym mhrosesau strategol arweinwyr a sut mae athrawon yn cynllunio eu gwersi, nid yw tua hanner o ddisgyblion yn cyflawni hyd orau eu hoed a'u cam datblygu. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau siarad a darllen Saesneg, a'u medrau digidol. Er hyn, mae ansawdd yr addysgu yn anghyson, ac yn nosbarthiadau'r disgyblion hŷn, mae disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn rhy isel. Mae hyn mewn ystod o fedrau, yn enwedig eu medrau llythrennedd a rhifedd, gan gynnwys datblygiad eu medrau Cymraeg.

Mae'r ysgol wedi cynllunio cwricwlwm pwrpasol a diddorol sy'n cefnogi gwybodaeth disgyblion am eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach. Mae staff wedi meithrin perthnasoedd cadarnhaol rhwng yr ysgol a'i chymuned. Mae disgyblion yn elwa ar ystod ddiddorol o ymweliadau, ymwelwyr i'r ysgol, a chyfleoedd rheolaidd i drafod materion moesol a chymdeithasol.

Mae staff yn blaenoriaethu lles disgyblion ac yn arddel ethos cynhaliol a gofalgar. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n hapus yn yr ysgol ac yn barod i droi at staff am gymorth, fel y bo angen. Darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu yn yr awyr agored, ac mae hyn yn cyfrannu at eu lles a'u mwynhad o fynychu'r ysgol. Yn ddiweddar, rhoddir sylw i bwysigrwydd presenoldeb rheolaidd, ond mae presenoldeb parhaus ychydig o ddisgyblion, dros amser, yn rhy isel.

Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella:

A1 Gwella ansawdd arweinyddiaeth a hunanwerthuso i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol mewn addysgu a dysgu

A2 Gwella presenoldeb disgyblion

A3 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion wella eu medrau llafaredd Cymraeg

A4 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion i wneud cynnydd adeiladol yn eu medrau llythrennedd a rhifedd

Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob pedwar i chwe mis, fel arfer.

Prif werthusiad

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol sy'n hyrwyddo lles disgyblion yn effeithiol. Mae bron bob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn ymfalchïo ynddi. Maent yn gwrtais a meddylgar, ac yn ymddwyn yn dda, gan drin ei gilydd ac oedolion gyda gofal a pharch.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol o'r ysgol. Maent yn darparu lefel briodol o her o ran ychydig o faterion pwysig, gan gynnwys rhai yn ymwneud â'r gyllideb. Fodd bynnag, dros amser, nid yw'r llywodraethwyr yn herio'n ddigonol ar faterion pwysig. Mae gan yr ysgol brosesau priodol er mwyn monitro a hyrwyddo presenoldeb a phrydlondeb disgyblion. Er hyn, mae cyfradd ychydig o'r disgyblion sy'n absennol yn barhaus, dros amser, yn rhy isel.

Mae arweinwyr yn dechrau cynllunio cylch o weithgarwch monitro pwrpasol sy'n cynnwys arweinwyr eraill ac athrawon yn y broses. Mae'r gweithgareddau'n ffocysu'n fwyaf penodol ar ymweliadau i'r dosbarthiadau, craffu ar waith disgyblion, a chasglu barn disgyblion. Trwy'r prosesau hyn, mae arweinwyr yn dechrau adnabod agweddau penodol i'w datblygu. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw prosesau hunanwerthuso yn ddigon dibynadwy ac nid yw arweinwyr yn nodi agweddau pwysig ar addysgu a dysgu sydd angen eu gwella. Nid yw arweinwyr bob amser yn cynllunio dysgu proffesiynol yn ddigon strategol i fynd i'r afael â'r gwelliannau sydd eu hangen. Er bod arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar les ac ymddygiad disgyblion, nid yw wedi cael digon o effaith gadarnhaol ar feysydd pwysig o waith yr ysgol, fel ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion, gan gynnwys medrau llythrennedd Cymraeg a rhifedd disgyblion.

Mae athrawon yn meithrin perthynas weithio agos a chynhaliol â disgyblion. Mae staff yn fodelau iaith cadarn ac yn annog y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eu sesiynau dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud defnydd digon cadarn o'r iaith wrth ddysgu a chwarae. Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae'r gwersi'n cael eu cynllunio'n briodol â gweithgareddau sy'n cyfrannu at gynnydd addas yng ngwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Yn y gweithgareddau hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r hyn mae disgyblion yn gallu ei gyflawni ac mae cyflymder addas i'r dysgu. Fodd bynnag, mae'r disgyblion hynaf sydd ar frig yr ysgol yn oddefol wrth gyflawni gweithgareddau gan fod lefel yr her yn rhy isel. Mae tueddiad i athrawon or-arwain y gweithgareddau dysgu, sydd, yn ei dro, yn cyfyngu ar allu disgyblion i wneud dewisiadau yn gynyddol annibynnol am sut maent am gyflwyno eu gwaith.

Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu canllawiau defnyddiol i gefnogi disgyblion i ddeall gofynion tasgau penodol. Maent hefyd yn cynnig adborth llafar yn briodol ac amserol ar

waith disgyblion. Serch hynny, mewn lleiafrif o achosion, mae'r adborth sy'n cael ei ddarparu gan athrawon yn rhy gyffredinol neu'n or-ganmoliaethus. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i wybod beth sydd angen iddynt ei wella ymhellach er mwyn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu.

Mae gan staff ddealltwriaeth fuddiol o anghenion y disgyblion ADY ac maent yn darparu ystod bwrpasol o strategaethau trwy raglenni cefnogi. Mae hyn yn cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion ADY i wneud cynnydd perthnasol tuag at eu targedau unigol. Fodd bynnag, ar draws y ddarpariaeth, nid yw staff yn cyflwyno'r gweithgareddau dysgu yn ddigon effeithiol bob amser er mwyn cefnogi disgyblion i gyflawni hyd orau eu hoed a'u cam datblygu, yn enwedig y disgyblion mwy abl.

Mae staff yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae hyn yn sicrhau bod llawer ohonynt yn cydweithio'n gytûn mewn parau a grwpiau bychain. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n barchus ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n briodol. Er hyn, lleiafrif y disgyblion sy'n hyderus wrth ofyn cwestiynau perthnasol a chyfrannu at drafodaethau dosbarth yn y Gymraeg. Mae medrau llafaredd Cymraeg tua hanner y disgyblion yn datblygu'n effeithiol, yn enwedig y disgyblion ieuengaf. Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cyfathrebu â'i gilydd ac ymwelwyr yn Saesneg wrth ymgymryd â'u tasgau dysgu ac wrth siarad am eu cynnydd. Er bod athrawon yn darparu sesiynau caffael iaith perthnasol, mae'r effaith ar gynnydd disgyblion, o ran eu medrau llafaredd Cymraeg, yn rhy araf.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen Saesneg yn llwyddiannus. Maent yn darllen testunau cyfarwydd yn hyderus ac yn disgrifio'r cymeriadau a thrafod y cynnwys yn llwyddiannus. Er hyn, nid yw medrau darllen mwyafrif y disgyblion yn y Gymraeg yn ddigon cadarn.

Mae cyflwyniad gwaith y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Ar y cyfan, mae medrau ysgrifennu tua hanner y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Maent yn ysgrifennu brawddegau eglur a chlir wrth ddatblygu eu syniadau yn Saesneg, a gan amlaf yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir. Mae arweinwyr wedi dechrau adolygu a mireinio'r cynllunio ar gyfer gwella medrau llythrennedd disgyblion. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd bwriadus, yn enwedig ar gyfer y disgyblion hŷn, iddynt ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig mewn ystod o gyd-destunau bywyd go iawn.

Mae mwyafrif y disgyblion yn arddangos gafael briodol ar gysyniadau rhif. Maent yn meithrin dealltwriaeth addas o sut i wneud cyfrifiadau syml yn y pen ac yn ysgrifenedig. Er hyn, nid yw lleiafrif y disgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth ddatblygu eu

deallltwriaeth o gysyniadau mathemategol pwysig. Nid yw athrawon y disgyblion hŷn yn darparu digon o gyfleoedd i'r disgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn llesteirio gallu mwyafrif y disgyblion i ddatrys problemau mewn cyd-destunau pwrpasol yn gywir ac annibynnol.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Maent yn defnyddio ystod addas o ddyfeisiadau a phlatfformau digidol i gefnogi ac ymestyn eu dysgu. Mewn ystod briodol o weithgareddau, mae medrau corfforol a chreadigol y rhan fwyaf yn datblygu'n llwyddiannus.

Mae staff yn cynnig cwricwlwm sydd wedi'i wreiddio'n gadarn yn y cyd-destun lleol ac sy'n meithrin ymdeimlad o berthyn ymhlith y disgyblion. Rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion wrth iddynt fyfyrio ar eu caredigrwydd, er enghraifft, ac ar werthoedd fel parch ac empathi. Mae'r disgyblion yn cael profiadau pwrpasol i ddysgu yn yr awyr agored sy'n cyfrannu'n effeithiol at eu lles a'u medrau corfforol. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu i fod yn ddinasyddion gwybodus, deallus a iachus.

Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/01/2026